

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun , 25 Ebrill, 2016 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs D Roberts, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

210 YMDDIHEURIADAU.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr K D Hughes, (Benllech A), a Mrs J Peers, (Llanbedrgoch)

211 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2016.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD

212 CYNGOR SIR YNYS MON -YMATEB I FATERION PRIFFYRDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth – gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Mon a oedd yn ymateb i faterion priffyrdd a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor Cymuned.

213 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan Aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

214 GEMAU'R YNYSOEDD 2025.

Cyflwynwyd – llythyr gan Greg Evans, Cadeirydd Pwyllgor Gemau'r Ynysoedd yn egluro dyfodiad Gemau'r Ynysoedd i Ynys Mon yn 2025. Hefyd cynnig i Gynghorau Tref a Chymuned gyfrannu £100 fel rhanddeiliad allweddol.

PENDERFYNWYD – derbyn cynnig y Cadeirydd i gael cyflwyniad gan aelod o'r Pwyllgor cyn gwneud penderfyniad.

(Datganodd Mr I Williams ddiddordeb yn yr eitem yma ac nid oedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth na'r pleidleisio.)

BILIAU A CHYFRIFON

215 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00

216 CYFRIFON

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Mawrth, 2016.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

217 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2015 i ddiwedd mis Mawrth, 2016.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

218 GWEFAN Y CYNGOR CYMUNED.

Cyflwynwyd – llythyr Atebion Cyfrifiaduron Mon a oedd yn cynnig sefydlu Gwefan i Gynghorau Tref a Chymuned. Roedd y llythyr yn manylu cynnwys angenrheidiol yn unol a safonau Llywodraeth Cymru. Cost y gwaith fuasai £300 o ffi unwaith ac am byth a £220 o gostau parhaol bob dwy flynedd.

PENDERFYNWYD – cytuno i symud ymlaen gyda'r cynnig a derbyn y pris uchod.

219 CYFRIFON 2015/2016.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – crynodeb o dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor am 2015/16 yn unol a'r Rheolau Sefydlog. Byddai cyfrifon mwy manwl yn cael ei cyflwyno i'w cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

220 RHESTR GRANTIAU A RHODDION 2016/2017.

Cyflwynwyd – Rhestr Ddiwygiedig Grantiau a Rhoddion am 2016/2017 i'w mabwysiadu. Yn ystod y drafodaeth gwnaed awgrym fod grantiau blynyddol arferol i ofalu am Fynwentydd Eglwys St Pedr Llanbedrgoch, Hen Gapel Tabernacl Tynyngl, a Rhos Fawr Brynteg yn cael eu cynnwys yn y Rhestr Grantiau a Rhoddion.

Yn ogystal cynnwys Grwp Chwarae Benllech gyda rhodd o £100, cynyddu rhoddion y Grwp "Mother & Toddler" ac Ysgol Feithrin Benllech hefyd i £100.

Awgrymwyd fod pob rhodd dros £100 yn amodol ar gael braslun o'r gwariant a wnaed gyda'r arian ac os yn bosib copiau o anfonebau perthnasol.

PENDERFYNWYD – mabwysiadu'r Rhestr gyda'r newidiadau uchod. Fe gynnwysir Rhestr ddiwygiedig yn Rhaglen mis Mai.

(Datganodd Mr I Williams ddiddordeb yn yr eitem yma ac nid oedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater)

(Datganodd Mrs W Owen ddiddordeb yn yr eitem yma ac nid oedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater)

221 COD YMDDYGIAD

Cafwyd eglurhad manwl drwy lythyr gan Swyddog Monitro'r Cyngor Sir ynglyn a rhoddion i Ysgolion o fewn dalgylch y Cyngor Cymuned pan oedd rhai o aelodau'r Cyngor yn Lywodraethwyr Corff yr Ysgolion. Mae tri math o ddiddordeb yn bodoli ac mae tri math o angen, sydd yn cael ei manylu isod.

Aelodau o'r Corff Llywodraethu heb gael ei penodi gan y Cyngor Cymuned – mae diddordeb personol a rhagfarnllyd ac mae angen ymneilltuo a gadael y cyfarfod.

Aelodau o'r Corff Llywodraethu a benodwyd gan y Cyngor Cymuned – diddordeb personol ond heb fod yn rhagfarnlyd. Angen datgan diddordeb ond yn gallu siarad a phleidleisio.

Rhieni yn aelodau o'r Cyngor Cymuned – diddordeb personol ond yn rhagfarnlyd pan mae budd uniongyrchol i'w plant. Datgan diddordeb, siarad a phleidleisio.

222 GWASANAETH LLYFRGELLOEDD.

Yn anffodus nid oedd neb o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn rhydd i ddod i drafod y trosiad o'r Gwasanaeth yn lleol. Fodd bynnag cafwyd gair i gadarnhau y buasai cynrychiolydd yn dod i Gyfarfod mis Mai o'r Cyngor Cymuned.

223 ASESIAD RISG 2015/2016.

Cyflwynwyd – asesiad risg drafft 2015/16 i'w gymeradwyo.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r ddogfen fel ac yr oedd.

CYNLLUNIO

224 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1 Caniatau :

30C309A	Pen y Lon, Traeth Coch,
30C680A	Bryn Rhwydd, Llanbedrgoch,
30C788	2 Trem y Don, Ffordd Bangor, Benllech.
30C77F	Parc Bach, Benllech – yn amodol ar gytundeb Adran Priffyrdd ac Adran yr Amgylchedd.

(Datganodd Mrs D Roberts ddiddordeb yng nghais Rhif 30C680A ac nid oedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau a'r pleidleisio ar yr eitem)

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-00 yr hwyr.